Image not found or type unknown

Gwella llesiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gwella-llesiant-ar-gyfer-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-a-blynyddoedd-cynnar am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

- Mae **78%** o'r gweithlu'n teimlo eu bod yn derbyn cymorth gan eu cydweithwyr, ac mae 66% yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth gan eu rheolwr
- Mae **63%** yn ei chael hi'n anodd anghofio am y gwaith ar ôl cyrraedd adref
- Mae **31%** yn teimlo bod digon o gefnogaeth ar gael i ymdopi â straen
- Dywedodd **46%** eu bod yn teimlo dan straen yn y gwaith oherwydd bod ganddynt ormod i'w wneud ac oherwydd prinder amser
- Dywedodd **traean** y bydden nhw'n defnyddio ein gwybodaeth am iechyd a llesiant yn y gwaith

(Ffynhonnell: Canlyniadau arolwg y gweithlu 2023)

Mae eich llesiant yn bwysig

Mae llesiant y gweithlu yn ganolbwynt i'n gwaith. Rydyn ni am i'r gweithlu fod yn hapus, yn iach a sicrhau ei fod yn derbyn cymorth, er mwyn i'r gweithlu yn ei dro gynorthwyo llesiant y bobl dan ei ofal.

Strategaeth y gweithlu

Clywsom gan fwy na **1,000** o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a ddywedodd fod iechyd a llesiant y gweithlu o'r pwys mwyaf ac yn ganolbwynt strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Y flwyddyn 2023-2024 oedd ein trydedd flwyddyn yn gwireddu strategaeth y gweithlu ac roedd yn parhau i fod yn gyfnod heriol i'r sector. Er gwaethaf heriau

sylweddol y tair blynedd diwethaf, rydyn wedi gwneud cynnydd ac wedi dechrau meddwl am gam nesaf y broses o gyflwyno'r strategaeth.

Fe wnaethom ofyn i chi am adborth ar ein cynllun cyflawni gweithlu ar gyfer 2024-2027 ac ymatebodd bron i **80** o bobl a sefydliadau. Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun yn 2024 i 2025.

Yn 2023 i 2024, fe wnaethom ddiweddaru ein tri chynllun hefyd i helpu i wireddu strategaeth y gweithlu:

- cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol
- cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol.

Adnoddau iechyd a llesiant

Ers diweddaru ein hadnoddau iechyd a llesiant ym mis Gorffennaf, mae bron i **3,300** o bobl wedi edrych ar y wybodaeth ar ein gwefan. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd **91** o bobl yn aelodau o'n rhwydwaith e-bost llesiant a **56** o bobl yn aelodau gweithredol o'n cymuned llesiant ar-lein.

Fe wnaethom gyhoeddi cyfres o fideos i gefnogi pobl sy'n ymwneud ag ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Lansiwyd gwasanaeth cymorth llesiant iddyn nhw hefyd – cynhaliwyd **76** o sesiynau cwnsela fel rhan o'r cynllun peilot.

Cynadleddau a digwyddiadau llesiant

Cynhaliwyd ein cynhadledd iechyd a llesiant gyntaf ym mis Hydref 2023 a daeth **87** o bobl iddi. Dywedodd y rhai a ddaeth eu bod yn teimlo bod y

gynhadledd wedi rhoi cyfle iddyn nhw wneud y canlynol:

- cysylltu ag eraill sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- rhannu awgrymiadau a syniadau
- darganfod mwy am yr adnoddau a'r cymorth iechyd a llesiant sydd ar gael, gan gynnwys ein fframwaith iechyd a llesiant.

"Roedd yr holl siaradwyr yn wych. Dwi'n gwerthfawrogi'r cyfle i fynd i weithdai yn fawr a byddaf yn defnyddio'r cysylltiadau a wnes i fel rhan o'm gwaith.”

Gweithiwr gofal cymdeithasol a ddaeth i’r gynhadledd iechyd a llesiant

Cynhaliwyd **saith** sesiwn llesiant yn 2023 i 2024, a daeth **197** o weithwyr gofal iddynt. Roedd y sesiynau hyn yn ymdrin â phynciau fel:

- llesiant ariannol
- cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n gweithio
- cefnogi staff niwrowahanol
- sicrhau bod gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Hefyd, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi yn ymwneud ag arferion tosturi a diogelwch seicolegol a fynychwyd gan **45** o reolwyr. Fe wnaethom gyflwyniad mewn **24** o fforymau, cynadleddau a digwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o lesiant a’r cymorth yn y gweithle sydd ar gael.

Gwasanaeth cefnogi cyflogwyr

Yn 2023 i 2024, mynychodd **197** o gyflogwyr o **102** o sefydliadau gwahanol ddigwyddiadau a gynhaliwyd gennym fel rhan o'n gwasanaeth newydd i gefnogi cyflogwyr, sy'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau, cymorth ac adnoddau. Rydyn wedi'u creu a'u casglu i gyflogwyr i'w helpu yn eu gwaith. Hefyd, fe wnaethom gyfarfod â **464** o bobl mewn digwyddiadau cysylltiedig eraill i hyrwyddo'r gwasanaeth.

Sut mae llesiant staff gofal cymdeithasol yn gallu arwain at gynyddu cyfraddau cadw staff

Fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o dystiolaeth yn ymwneud â phwysigrwydd llesiant er ei fwyn ei hun ac oherwydd y ffaith fod llesiant gwell yn gallu arwain at gynyddu cyfraddau cadw staff. Mae ein crynodeb yn cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â sut mae cyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol yn gallu cefnogi llesiant gweithwyr a gwella cyfraddau cadw.

Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gweithlu-gofal-cymdeithasol-a-blynyddoedd-cynnar-syn-cael-ei-

gydnabod-ai-werthfawrogin-fawr am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

- Mae **76%** o'r gweithlu cofrestredig yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl a'r teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo, mae **71%** yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu gwerthfawrogi, a **61%** yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu gwerthfawrogi. Ond dim ond **44%** sy'n teimlo bod y cyhoedd yn eu gwerthfawrogi.
- Mae **57%** yn fodlon â'u swydd bresennol (mae **33%** yn anfodlon).
- Dywedodd **63%** fod ganddynt deimlad o foddhad swydd, y rhan fwyaf o'r amser o leiaf.

(Canlyniadau'r arolwg o'r gweithlu 2023)

Mae Arolwg Omnibws Cymru o 1,000 o aelodau'r cyhoedd yn 2023 yn dangos bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi'r gweithlu:

- mae mwy na **dwy ran o dair** (**76%**) yn credu eu bod yn gwneud gwaith da
- mae bron i **dri chwarter** yn ymddiried ynddyn nhw
- mae bron i **80 y cant** yn credu y dylai gweithwyr gofal gael lefelau tebyg o gyflog a buddion i'r rhai sy'n gweithio yn y GIG.

(Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2023)

Fforwm Gwaith Gofal Cymdeithasol

Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn haeddu gwobr deg sy'n adlewyrchu ei gyfraniad hollbwysig at lesiant pobl a chymunedau.

Fel aelodau o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, fe wnaethom barhau i ddylanwadu ac ymrwymo i ymgorffori gwaith teg a gwella telerau ac amodau'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Fe wnaethom gadeirio ac arwain y gweithgor a ddatblygodd y Fframwaith Cyflog a Datblygu Gyrfa a oedd yn destun ymgynghoriad yn 2023. Cafwyd cefnogaeth eang i'r fframwaith hwn a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2024/25.

Cydnabod a dathlu'r gweithlu

Cynhaliwyd ein seremoni wobrwyo Gwobrau ar 27 Ebrill 2023. Roedd yn gyfle i ni gydnabod, dathlu a rhannu ymarfer rhagorol ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae'r Gwobrau'n agored i weithwyr gofal ar bob lefel, yn ogystal â thimau, prosiectau a sefydliadau o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac annibynnol sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Roedd dros **40** o brosiectau a gweithwyr o bob rhan o Gymru wedi gwneud cais neu wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobrau 2023. Dewiswyd y **15** a gyrhaeddodd y rownd derfynol gan banel o feirniaid a oedd yn cynnwys aelodau o'n Bwrdd, cynrychiolwyr o sefydliadau partner a phobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

“Mae mor bwysig ein bod yn neilltuo'r amser hwn i ddiolch i'r gweithwyr gofal hynny a chydnabod a dathlu'r gofal a'r cymorth rhagorol sy'n cael eu darparu bob dydd ym mhob cymuned yng Nghymru.” ein Prif Weithredwr

Mae sylwadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ein prosiectau buddugol a'r rhai a gafodd ganmoliaeth uchel yn dangos bod y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Gwobr gofalu trwy'r Gymraeg

Mae gallu derbyn gofal a chymorth gan rywun sy'n gallu siarad eich iaith yn rhan bwysig o dderbyn gofal urddasol o ansawdd uchel. Roedd seremoni wobrwyo Gofalu trwy'r Gymraeg 2023, a gynhaliwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar 10 Awst, yn gyfle i gydnabod, dathlu a rhannu gwaith pobl sy'n darparu gofal a chymorth rhagorol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Eleni, dewiswyd pump o bobl o bob rhan o Gymru ar gyfer rownd derfynol y wobr gan banel o feirniaid arbenigol. Cafodd yr enillydd, arweinydd chwarae o Gaerdydd, Ross Dingle, ei ddewis trwy bleidlais gyhoeddus lle pleidleisiodd dros **2,250** o bobl.

“Mae'r wobr eleni wedi rhoi enghreifftiau rhagorol i ni o weithwyr ymroddedig sy'n ysbrydoli pobl trwy ddarparu gofal rhagorol trwy gyfrwng y Gymraeg. Maen nhw'n adlewyrchu'r gwahaniaeth pwysig a chadarnhaol y gall derbyn gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ei wneud i fywydau pobl.” ein Prif Weithredwr

‘‘Dweud eich dweud' – yr arolwg cyntaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig

Cwblhaodd mwy na **3,100** o bobl sydd wedi cofrestru gyda ni ein harolwg cyntaf o'r gweithlu, a oedd yn gofyn cwestiynau am faterion fel:

- llesiant
- y profiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol
- cyflog ac amodau

- hyfforddiant a chymwysterau.

Ym mis Hydref, cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio'r cymorth a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gennym, yn ogystal â gwaith ein sefydliadau partner. Yn y dyfodol byddwn yn gallu gweld sut y gallwn wella a chefnogi mwy o feysydd ar gyfer y gweithlu yn ein holl waith. Fe wnaethom lansio arolwg 2024 ym mis Ionawr er mwyn gallu monitro'r hyn y mae'r gweithlu'n ei ddweud wrthym dros amser. Byddwn yn rhannu canlyniadau'r arolwg hwnnw yn hydref 2024.

“Mae ymrwymiad eithriadol ein gweithlu gofal cymdeithasol yn amlwg yn yr arolwg drwyddo draw. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolwg yn atgyfnerthu'r ffaith fod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod ein gweithlu’n teimlo bod pobl yn ei werthfawrogi a'i fod yn cael y cymorth gorau posibl sydd ar gael.” Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd

Cerdyn gweithiwr gofal

Fe wnaethom gyhoeddi fersiwn newydd o'r cerdyn gweithiwr gofal yn 2024. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr y blynyddoedd cynnar yn gallu defnyddio'r cerdyn hwn i gael cerdyn arian-yn-ôl a chasgliad o gynigion manwerthu gan y darparwr disgowntiau pwrpasol Discounts for Carers.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd cerdyn gan **45,232** o weithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar. O'r rhain:

- mae **8,705** yn weithwyr gofal cymdeithasol nad ydynt wedi cofrestru gyda ni
- mae **1,762** yn weithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.



Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a

chymorth

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-syn-denu-recriwtio-a-chadw-pobl-âr-gwerthoedd-cywir-i-ddiwallu-anghenion-y-rhai-sydd-angen-gofal-a-chymorth am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Yn 2022:

- amcangyfrifwyd bod **84,134** o bobl yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru – saith y cant yn llai* nag yn 2021.
- roedd **226** yn fwy o bobl wedi ymuno â'r sector o'i gymharu â'r rhai a adawodd
- cofnodwyd **5,323** o swyddi gwag, sy'n cyfateb i naw y cant o'r gweithlu
- roedd **80%** o'r gweithlu wedi'u cyflogi ar gontract parhaol
- roedd canran y gweithwyr asiantaeth wedi gostwng ychydig, roedd cyfran y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio i:
  - ddarparwyr a gomisiynir yn 1.7 y cant (i lawr o dri y cant yn 2021)
  - awdurdodau lleol wedi cynyddu i 0.5 y cant (i fyny o 0.4% yn 2021).

Ffynhonnell: Adroddiad data'r gweithlu 2022

Mae tua 17,300 o bobl yn gweithio ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru

(Ffynhonnell: Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru 2018)

Gofalwn Cymru

Yn 2023 a 2024, fe wnaethom barhau i ddatblygu brand Gofalwn Cymru er mwyn denu, recriwtio a chadw pobl yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.

Fe wnaethom ddatblygu ymgyrch genedlaethol a phorth swyddi Gofalwn Cymru ymhellach, sy'n cael ei ddefnyddio gan fwy o ddarparwyr.

Mae'r porth swyddi'n ffordd hawdd i gyflogwyr gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar hysbysebu eu swyddi gwag ac i bobl weld y swyddi gwag sydd ar gael yn eu hardal. Gwelwyd cynnydd yn nifer y swyddi a hysbysebwyd ar y porth swyddi ac yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd.

Gofalwn Cymru

219,286 o bobl wedi defnyddio'r wefan

57,675 o bobl wedi defnyddio'r porth swyddi

3,551 o swyddi wedi'u cyhoeddi

Rhaglen Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol

Rydyn yn cynnal rhaglen hyfforddi wedi'i hariannu ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn gweithio ym maes gofal cymdeithasol o'r enw Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol.

Yn 2023:

- cofrestrodd **1,079** o bobl ar y rhaglen
- cwblhawyd y rhaglen gan **580** o oedolion a phobl ifanc **(53%)**
- mynychodd **127** o bobl ifanc y rhaglen coleg a oedd yn para deuddydd
- cafodd **67** o bobl gymorth un-i-un gan hyfforddwr gwaith
- cafodd **77** gyfle ym maes cyflogaeth, addysg neu wirfoddol ar ôl cwblhau'r rhaglen

Cyflwyniad i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant

Nod y rhaglen 'Cyflwyniad i Ofal Plant' yw codi ymwybyddiaeth o'r profiad o weithio ym maes gofal plant a chynghori pobl ar ddechrau eu gyrfa yn y sector.

Yn 2023, roedd **205** o bobl wedi cwblhau'r rhaglen.

Ystyried sut i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ym meysydd gofal cymdeithasol a gofal plant

Dywedodd pobl sy'n gweithio yn y sector y gall dod o hyd i waith ymchwil cyfoes sy'n berthnasol i'w hymarfer fod yn her. Er mwyn cynorthwyo pobl gyda hyn, rydyn wedi bod yn cynhyrchu crynodebau tystiolaeth sy'n cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil mewn ffordd hawdd ei deall. Gan ddibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael, mae ein crynodebau tystiolaeth yn gallu cynnig y canlynol i bobl:

- esboniad byr o sut mae'r pwnc yn ymwneud â deddfwriaeth a pholisi Cymru
- dolenni i ddata perthnasol ar ein Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol
- enghreifftiau o ymarfer addawol o Gymru
- mynediad at ragor o gymorth, gan gynnwys ein cymunedau ymarfer, ein gwasanaeth anogaeth arloesedd, a'n cymorth gwerthuso
- dolenni i ddigwyddiadau a hyfforddiant cysylltiedig

Deall atyniad, recriwtio ac ymddygiadau ceisio gwaith

Fe wnaethom gyhoeddi cyfres o adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â deall atyniad, recriwtio ac ymddygiadau ceisio gwaith er mwyn cynorthwyo cyflogwyr gofal cymdeithasol sy'n ei chael hi'n anodd denu a recriwtio staff. Fe wnaethom gynhyrchu dau adnodd ar eu cyfer hefyd:

- canllaw ar ddenu, recriwtio a chadw - gwybodaeth am sut y gellir mynd i'r afael â heriau'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant.
- pecyn cymorth personas defnyddwyr - mae'r pecyn cymorth hwn yn disgrifio sut y gellir defnyddio personas defnyddwyr i gefnogi ceiswyr gwaith yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys sawl enghraifft o bersonas defnyddwyr.

Cynnwys cysylltiedig

Ein canlyniadau

Gofalwn Cymru

Grŵp Gwybodaeth

Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sydd â hyder y cyhoedd



Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gweithlu-gofal-cymdeithasol-cofrestredig-sydd-â-hyder-y-cyhoedd am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Mae gan y cyhoedd yng Nghymru ganfyddiad cadarnhaol o sgiliau a phroffesiynoldeb y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru:

- mae gan **72%** hyder yn y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal
- mae **82%** yn gwybod beth yw safon gofal derbyniol
- mae **63%** yn meddwl bod gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol yn cael eu rheoleiddio (o'i gymharu â 58% yn 2021)
- dim ond **29%** sy'n gwybod sut i godi pryder am weithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol
- mae **70%** yn meddwl bod gweithwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru - dim ond 8% sy'n gwybod nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio
- mae **67%** yn cytuno y dylai pobl dderbyn gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dewis (yr un ganran ag yn 2021) - mae cefnogaeth yn uwch ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg (**76%)**, ond mae'n gymharol uchel ymhlith pobl ddi-Gymraeg (63%) hefyd

(Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2023)

Rheoleiddio

Rydyn yn diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod y gweithlu a reoleiddir wedi'i gofrestru ac yn addas i ymarfer.

Rydyn am i bobl sy'n dibynnu ar ofal a chymorth fod yn sicr bod gan weithwyr cofrestredig y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth, a'u bod yn gweithio yn unol â'r safonau rydym wedi'u pennu ar gyfer y sector.

Gweithlu cofrestredig

Ym mis Mawrth 2024 roedd **61,000** o bobl wedi'u cofrestru gyda ni (8,000 yn fwy nag ar ddiwedd 2023):

- **1,299** o reolwyr cartrefi gofal i oedolion
- **24,970** o weithwyr cartrefi gofal i oedolion
- **988** o reolwyr gofal cartref
- **21,578** o weithwyr gofal cartref
- **6,763** o weithwyr cymdeithasol
- **383** o reolwyr gofal plant preswyl
- **4,342** o weithwyr gofal plant preswyl
- **749** o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Addasrwydd i ymarfer

Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan weithiwr cofrestredig y sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad i wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n fframwaith rheoleiddio sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu'r cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i ymarfer sy'n cael gwneud hynny.

Yn 2023 i 2024:

- cafodd **465** o weithwyr gofal cymdeithasol eu cyfeirio at ein tîm addasrwydd i ymarfer

- cynhaliwyd **51** gwrandawiad terfynol

  cafodd **46** o bobl (0.08% o'r Gofrestr) eu tynnu oddi ar y Gofrestr, sy'n golygu na allant weithio mewn swydd gofal cymdeithasol gofrestredig yng Nghymru mwyach, sef:

- **4** o weithwyr gofal plant preswyl
- **2** o reolwyr cartrefi gofal i oedolion
- **8** o weithwyr cartrefi gofal i oedolion
- **1** gweithiwr cymdeithasol
- **31** o weithwyr gofal cartref.

Newidiadau cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr

Wrth i'r gweithlu gofal cymdeithasol dyfu, gwyddom pa mor bwysig yw gwneud ein proses gofrestru'n symlach, fel ei bod mor hawdd â phosibl i bobl weithio yn y sector.

Rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf, fe wnaethom holi'r gweithlu gofal cymdeithasol am ei farn ar ein newidiadau arfaethedig i gofrestru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ffordd newydd o gofrestru, ynghyd â rhoi mwy o amser i weithwyr gwblhau'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i adnewyddu eu cofrestriad.

Hefyd, fe wnaethom ofyn i'r gweithlu am adborth ar ein gofynion cofrestru a'r canllawiau ymarfer drafft ar gyfer gweithwyr a rheolwyr preswyl ysgolion arbennig. Ar ôl ystyried yr adborth a gawsom, daeth y newidiadau arfaethedig i

rym ym mis Medi 2023.

“Bydd y newidiadau hyn yn gwneud y broses gofrestru’n symlach ac yn fwy effeithiol i Gymru, gan sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddenu'r gweithlu gorau ar gyfer gofal cymdeithasol.” David Pritchard, ein Cyfarwyddwr Rheoleiddio



Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau addas, sy’n wybodus a medrus ac sydd â’r gwerthoedd, yr ymddygiad a’r ymarfer

cywir

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 21 October 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gweithlu-gofal-cymdeithasol-a-blynyddoedd-cynnar-sydd-â-chymwysterau-addas-syn-wybodus-a-medrus-ac-sydd-âr-gwerthoedd-yr-ymddygiad-ar-ymarfer-cywir am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024.

Fe wnaethom helpu pobl sy'n cael eu cyflogi ym meysydd gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau a gwella eu galluoedd i gefnogi pobl a darparu gofal yn effeithiol.

- dywed **67%** o'r cyhoedd yng Nghymru fod gweithwyr gofal preswyl yn fedrus ac yn broffesiynol yn eu gwaith bob amser (yr un ganran ag yn 2021)
- dywed **65%** o'r cyhoedd yng Nghymru fod gweithwyr gofal cartref yn fedrus ac yn broffesiynol yn eu gwaith bob amser (67% yn 2021)
- dywed **67%** o'r cyhoedd yng Nghymru fod gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn fedrus ac yn broffesiynol yn eu gwaith bob amser (69% yn 2021 a 2020)

(Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2023)

Cofrestr seiliedig ar gymwysterau

Gyda **61,000** o bobl ar y gofrestr rydyn yn gallu adrodd ar y cymwysterau sydd gan weithwyr gofal i gyflawni eu rolau. Rydyn yn darparu data ac yn adrodd ar y data o'r gofrestr seiliedig ar gymwysterau y mae gweithwyr gofal eu hangen i feddu ar gymwysterau penodol yn dibynnu ar eu rôl swydd.

Rydyn wedi ymrwymo i ddarparu mynediad agored i ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r data o'n Cofrestr wedi'i gynnwys yn ein Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru sy'n dwyn ynghyd ddata o wahanol ffynonellau i helpu i greu darlun o ofal cymdeithasol a chymorth ledled Cymru.

Rheoli'r broses ar gyfer cyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth drwy Ardystio Prentisiaethau Cymru

Mae prentisiaethau'n cynnig ffordd o dderbyn hyfforddiant a datblygu sgiliau a chymwysterau newydd wrth i bobl weithio ac ennill cyflog. Mae manylion holl fframweithiau prentisiaethau gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ar gael ar wefan Ardystio Prentisiaethau Cymru (ACW). Ein rôl ni yw helpu i wirio tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Wedyn rydym yn anfon tystysgrifau at ddarparwyr dysgu sy'n dyfarnu'r brentisiaeth i'w dysgwyr.

Cwblhaodd **3,270** o bobl brentisiaethau ym meysydd gofal plant, chwarae, dysgu a datblygu neu iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023 i 2024:

- cwblhaodd **880** o bobl brentisiaeth gofal plant, chwarae, dysgu a datblygu
- cwblhaodd **2,390** o bobl brentisiaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Buddsoddi yn y gweithlu
Rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol

Derbyniodd **172 o fyfyrwyr newydd** fwrsariaeth yn 2023 i 2024:

- **100** o fyfyrwyr israddedig
- **72** o fyfyrwyr Meistr

Mynychodd 224 o fyfyrwyr adnewyddu gyrsiau yn 2023 i 2024

Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)

Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWWDP) yn fenter grant sydd â'r nod o wella gweithlu'r sector gofal cymdeithasol. Ei nod yw gwella ansawdd a phrosesau rheoli gwasanaethau cymdeithasol trwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar hyfforddiant ledled y sector.

Fe wnaethom roi **£7,640,051** i awdurdodau lleol drwy Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP). Darparodd yr awdurdodau lleol arian cyfatebol gwerth **£3,274,076**.

Cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol i ddysgu Cymraeg

Mae ein data yn awgrymu bod tua **29%** o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu deall Cymraeg i ryw raddau ac rydym yn parhau i edrych ar ddulliau o gefnogi'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Eleni, cofrestrodd **474** o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar ein cwrs Camau i ddechreuwyr, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'n cymryd 60 awr i gwblhau'r cwrs di-dâl, sy'n cynnig cyfnodau dysgu byr a hyblyg, gan ganolbwyntio ar y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg y mae gweithwyr yn fwyaf tebygol o fod eu hangen wrth gyfathrebu â'r bobl maen nhw'n eu cynorthwyo.

Safonau hyfforddiant diogelu

Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd y Fframwaith hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Cafodd y fframwaith ei greu mewn partneriaeth â chydweithwyr ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, addysg, iechyd a'r gwasanaethau brys yng Nghymru, ac mae'n nodi safonau ar gyfer y lefelau a'r mathau o hyfforddiant diogelu sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol.

Y safonau hyn oedd y cyntaf o'u math yng Nghymru a'u nod yw sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol ledled Cymru lefelau a mathau cyson o hyfforddiant diogelu.

Rhaglenni arweinyddiaeth 2023/24

Rydyn yn goruchwylio nifer o raglenni rheolaeth ac arweinyddiaeth gofal cymdeithasol:

- rhaglen arweinyddiaeth gyfunol a thrugarog, i wella rhinweddau arweinyddiaeth ymysg uwch arweinwyr yn y sector gofal cymdeithasol – roedd **87%** o'r rhai a gwblhaodd y rhaglen yn fodlon ei bod wedi diwallu eu hanghenion
- mae'r rhaglen rheolwyr canol yn helpu darpar reolwyr canol i ddeall a pharatoi ar gyfer symud i'r rolau hyn, ac yn cefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth
- y cyfarwyddwyr statudol – ymunodd **8** o bobl â'r garfan newydd ar gyfer 2023 i 2024

Byddwn yn parhau i werthuso'r rhaglenni er mwyn parhau i wella, datblygu ac adeiladu ar yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu.

Cymunedau ymarfer i gefnogi dysgu

Rydyn wedi sefydlu cymunedau er mwyn cynorthwyo pobl yn y sector i ddatblygu rhwydweithiau, gweithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd, gan gynnwys y canlynol:

- **50** aelod mewn cymuned gofal sy'n seiliedig ar le
- **15** aelod mewn cymuned modelau newydd o ofal preswyl
- **168** aelod yn y gymuned dystiolaeth
- **148** aelod yn y gymuned Unigolion Cyfrifol

Rydyn am i'r cymunedau fod yn lle diogel i aelodau, lle maen nhw'n gallu teimlo'n ddiogel yn archwilio pynciau sy'n bwysig iddyn nhw. Gan wybod bod y gymuned yn eu cefnogi, mae aelodau'n gallu rhannu syniadau, gofyn cwestiynau a derbyn cymorth.

Dyma sylwadau aelodau o gymunedau ymarfer:

“Mae'n dda clywed bod pobl eraill yn mynd trwy heriau tebyg i mi. Mae'r gwaith hwn yn gallu bod yn anodd ac yn unig weithiau, ac rydych chi eisiau gwybod bod pobl eraill yn rhannu'ch profiad!”

"Mae'r budd o ddatblygu cysylltiadau ar draws [awdurdodau lleol] eraill wedi bod yn werthfawr iawn. Yn fy marn i, mae'n fuddiol i ddatblygu gwasanaethau ledled Cymru.”

"Mae'n ddefnyddiol iawn derbyn cefnogaeth a gwrando ar syniadau pobl eraill sy'n ceisio datrys yr un math o broblemau.”

Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymwreiddio ac yn defnyddio dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-syn-ymwreiddio-ac-yn-defnyddio-dulliau-gofal-a-chymorth-syn-seiliedig-ar-gryfderau am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

O safbwynt y gweithlu, rydyn wedi gweld tystiolaeth o ddefnyddio gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd gadarnhaol o ganlyniad i ganolbwyntio ar yr egwyddorion. Yn yr un modd, mae ethos cyffredinol y Ddeddf [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)], sy'n rhoi mwy o lais a rheolaeth a dulliau gweithredu i bobl, fel sgyrsiau am ‘beth sy'n bwysig’, wedi helpu i oresgyn rhaniadau a allai fodoli o fewn diwylliannau gweithlu, er nad yn gyson bob amser. Mae hyn wedi galluogi gweithwyr i weithio y tu hwnt i ffiniau rhagnodedig ac archwilio opsiynau ehangach.”

Adroddiad terfynol: gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Mawrth 2023

“Dywedodd **5%** o bobl eu bod wedi derbyn cymorth iddyn nhw eu hunain gan wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r bobl sy'n derbyn gofal, mae gan **33%** becyn gofal sy'n cael ei drefnu gan y cyngor lleol, ac mae **37%** o'r grŵp hwn yn talu tuag at y gofal maen nhw'n ei dderbyn. Dywedodd **3%** arall o bobl fod angen cymorth arnynt ond nad oeddent wedi derbyn cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth yn ystod y 12 mis diwethaf.”

Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Cefnogi dull canlyniadau sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae dull canlyniadau sy'n seiliedig ar gryfderau yn cefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'u teuluoedd i fyw'r bywydau gorau posibl trwy ddatblygu eu cryfderau a'u galluoedd. Mae'n ymwneud â chydnabod bod pawb yn gallu cyfrannu at eu bywydau a derbyn cyfrifoldeb am eu bywydau: yr unigolyn, ei rwydwaith o ffrindiau a theulu, a'i gymuned.

Fe wnaethom barhau i gefnogi pum awdurdod lleol i ddatblygu a darparu hyfforddiant er mwyn datblygu hyder a sgiliau'r rhai sy'n gweithio mewn timau gwaith cymdeithasol, plant ac oedolion wrth gymhwyso'r dull hwn. Hefyd, fe wnaethom gefnogi eu timau rheoli i baratoi ar gyfer y newid systemig sydd ei angen i gefnogi'r dull gweithredu. Rydyn yn paratoi adnoddau hyfforddi ar-lein ar gyfer rheolwyr yn y sector gofal cymdeithasol ehangach, a bydd cynnig i gefnogi rheolwyr ar gael yn 2024 i 2025.

Cefnogi'r agenda drawsnewid ym maes gwasanaethau plant

Yn 2023 i 2024, fe wnaethom ganolbwyntio ein cefnogaeth ar y rhan o'r rhaglen drawsnewid sydd â'r lefel uchaf o gymhlethdod a goblygiadau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf – dileu elw ym maes gwasanaethau plant. Yn benodol, dileu elw ym maes gofal preswyl i blant.

Er mwyn ein helpu i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu mewn awdurdodau lleol, fe wnaethom anfon holiadur atyn nhw ym mis Rhagfyr er mwyn derbyn gwybodaeth am anghenion recriwtio, cadw a hyfforddiant yn ymwneud â dulliau gweithredu therapiwtig. Byddwn ni'n mynd ati i ddadansoddi'r data a rhannu'r prif ganfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru.

Sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau: gwerthusiad

Ym mis Mehefin, fe wnaethom gyhoeddi gwerthusiad o raglen newydd sy'n canolbwyntio ar ryddhau cleifion o ysbytai. Nod y rhaglen oedd datblygu sgiliau a galluogrwydd newydd er mwyn adfer y cydbwysedd yn ymwneud â dibynnu ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar risg a phroblemau, gyda'r bwriad o ddatblygu a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y rhaglen ar y cyd (BRR) yn rhaglen hybrid o 'Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol' (gofal cymdeithasol) a Nodau Gofal (iechyd) ym maes datblygu hyfforddiant a sgiliau.

Yn ôl gwerthusiad y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, roedd y rhan fwyaf o bobl a gymerodd ran yn y rhaglen yn teimlo'n fwy hyderus yn siarad â chleifion am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Dywedodd bron pawb eu bod yn deall y ddyletswydd gofal yn well erbyn hyn.

O'r **68** o bobl a gymerodd ran yn y rhaglen, daeth **12** yn 'fentoriaid' neu'n 'eiriolwyr' gan fynychu rhagor o hyfforddiant i'w helpu i ymgorffori'r dull gweithredu.

Cefnogi'r newid i ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy ddefnyddio ymchwil gyfoes

Rydym wedi cyhoeddi gwaith ymchwil perthnasol a chyfredol am ofal sy'n seiliedig ar le a dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma, a'u cyfraniad at ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol sy’n seiliedig ar arloesedd, ymchwil o ansawdd uchel, data a mathau eraill o dystiolaeth

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/ymarfer-a-pholisi-gofal-cymdeithasol-syn-seiliedig-ar-arloesedd-ymchwil-o-ansawdd-uchel-data-a-mathau-eraill-o-dystiolaeth am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Yn 2023 i 2024, fe wnaethom barhau i arwain y dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol a rheoli porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn gwneud defnydd gwell o ddata er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ein porth data:

- wedi derbyn **11,000** o ymweliadau
- wedi cael **3,000** o ddefnyddwyr unigryw.

Edrychwyd yn ôl hefyd ar y cynnydd yr oeddem wedi'i wneud ar ddiwedd y Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol gyntaf, lle buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid amrywiol i gefnogi cymunedau ymarfer, datblygu sgiliau, rhannu ymarfer a chefnogi gwaith arloesol.

Adroddiad data'r gweithlu

Rydyn yn casglu data'r gweithlu bob blwyddyn er mwyn rhoi cipolwg ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn yn gofyn i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau annibynnol anfon data atom ar nifer eu gweithwyr a nodweddion eu gweithlu.

Rydyn wedi bod yn casglu'r data ers 2021, ar ôl i Fframwaith Perfformiad a Gwella Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ddisodli casgliadau data blaenorol gydag un broses a reolir gennym ni.

Mae'r casgliad yn wahanol i wybodaeth a gyhoeddir am y gweithlu cofrestredig gan ei fod yn casglu data ar bawb sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Hefyd, mae'n edrych ar faterion fel contractau ac oriau gwaith, yn ogystal â phobl sy'n ymuno â'r sector ac yn gadael y sector, o le maen nhw wedi symud ac i le maen nhw'n symud.

“Mae'n newyddion cadarnhaol bod data fel hyn yn golygu ein bod yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y ffordd orau o gefnogi'r sector i oresgyn yr heriau hyn a diwallu anghenion y boblogaeth.” ein Prif Weithredwr

Aeddfedrwydd data gofal cymdeithasol

Rydyn wedi gwneud gwaith ymchwil yn ymwneud ag aeddfedrwydd data gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ein nod oedd helpu pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddeall sut maen nhw'n gallu gwneud y defnydd gorau o'r data sy'n cael ei gasglu, ei brosesu a'i rannu fel rhan o'u darpariaeth gofal cymdeithasol.

Ar ôl i ni asesu pob un o'r **22** awdurdod lleol, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn 2024 i 2025 sy'n rhoi trosolwg o'r data gofal cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru.

Arloesi digidol

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi bylchau yn y cymorth presennol ar gyfer arloesi digidol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yna fe wnaethom edrych ar sut y gallem gefnogi arloesedd digidol trwy asesu aeddfedrwydd digidol gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gan weithio gyda **97** o ddarparwyr gwasanaethau ac **8** sefydliad seilwaith, adolygwyd **9** model presennol o aeddfedrwydd digidol gan dderbyn

gwybodaeth gan **6** arbenigwr a oedd wedi datblygu modelau aeddfedrwydd digidol.

Ymlaen - y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol 2024 i 2029

Daethom â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd i ddatblygu strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol. Rydyn eisiau creu diwylliant lle mae tystiolaeth yn ganolog i ddarparu gofal cymdeithasol a lle mae'n cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar bob lefel.

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, gwnaethom ofyn i bobl am eu barn am y strategaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd **4** gweithdy (cyfanswm o **40** o bobl), er mwyn sicrhau bod pobl sy'n arwain, yn datblygu ac yn darparu gofal cymdeithasol yn teimlo'n hyderus ac yn awyddus i ddefnyddio tystiolaeth a dulliau arloesol, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Byddwn yn defnyddio'r adborth a gasglwyd i lywio'r fersiwn derfynol o'r strategaeth, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2024 i 2025.

Datblygu gwasanaeth ymchwil, data, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol

Yn 2023 i 2024, buom yn gweithio ar wasanaeth newydd ar gyfer gofal cymdeithasol o'r enw Grŵp Gwybodaeth. Nod y Grŵp Gwybodaeth yw gwneud

gwahaniaeth cadarnhaol i ofal cymdeithasol drwy ganolbwyntio ar dri maes – ymchwil a data, rhannu a dysgu, a hyfforddi a chyngor.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei lansio yn 2024 i 2025, gan roi mynediad i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol at y gwaith ymchwil a data gofal cymdeithasol diweddaraf, canllawiau ar hyfforddiant, cyfleoedd i gydweithio, a chyngor ar y cymorth sydd ar gael.

Gwasanaeth anogaeth arloesedd

Ym mis Medi, lansiwyd gwasanaeth anogaeth newydd i helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghenion a heriau. Rydyn yn gwybod bod arloesedd yn digwydd ar draws y sector gofal cymdeithasol, ond yn aml nid yw'n cael ei gydnabod. Os yw'r cymorth priodol ar gael, mae mwy o bobl yn gallu manteisio ar ddatblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol. Dyna pam rydyn wedi sefydlu'r gwasanaeth anogaeth arloesedd.

Yn 2023 i 2024, fe wnaeth ein hanogwyr arloesedd gefnogi bron i **25** o bobl a thimau. Mabwysiadwyd agwedd hyblyg at ein dulliau gweithio er mwyn deall sut i becynnu a chynnig ein cefnogaeth er mwyn helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Rydym wedi cefnogi amrywiaeth ehangach o brosiectau gan gynnwys profi dulliau o wella llesiant staff a chynyddu cyfraddau cadw staff, a chynyddu 'microfentrau gofal' er mwyn ailgynllunio 'drws ffrynt' y system atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau oedolion.

Fe gawsom adborth cadarnhaol gan bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, ond rydym am barhau i ddod o hyd i ddulliau newydd o egluro'r gwasanaeth a dangos yr hyn y gall ei wneud i'r sector.

“Dyma fy mhrofiad cyntaf fel anogwr, ac mae wedi bod yn wych. Wnes i erioed feddwl y byddai'n arwain at gymaint o gynnydd ar lefel ymarferol, a hefyd rhywfaint o ddatblygiad personol ac ymdeimlad cryfach o hyder.”

Cynhyrchu crynodebau o dystiolaeth i gefnogi ymarferwyr gofal cymdeithasol gyda thystiolaeth hygyrch a chyfredol i gefnogi sut maent yn defnyddio tystiolaeth yn eu gwaith

Rydyn wedi bod yn cynhyrchu crynodebau o dystiolaeth sy'n cyflwyno canfyddiadau ymchwil mewn ffyrdd sy'n hawdd eu deall. Mae’r rhain yn cyd-fynd â chynnig cofleidiol o gefnogaeth a chynnwys gan y Grŵp Gwybodaeth i helpu pobl i ddehongli a defnyddio tystiolaeth yn eu gwaith.

Yn 2023-24 fe wnaethom gyhoeddi pedwar crynodeb o dystiolaeth ar y Grŵp Gwybodaeth: dulliau gweithredu sy’n ystyried o ddrawma, denu a recriwtio, gwell llesiant a chadw’r gweithlu, a gofal yn seiliedig ar le. Rydyn wedi cael adborth cadarnhaol gan bobl sy’n darparu gofal a chymorth, ymchwilwyr ac addysgwyr.

Cynnwys cysylltiedig

- **Ein canlyniadau**
- **Ymchwil, data ac arloesi**
- **Grŵp Gwybodaeth**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 September 2024

Diweddariad olaf: 19 September 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2023-i-2024/mae-gofal-cymdeithasol-cymru-yn-darparu-gwasanaethau-effeithiol-a-chynaliadwy-o-ansawdd-uchel am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn yn 2023-2024

Fel sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol, mae gennym gyfrifoldeb i arwain drwy esiampl o ran sut rydyn yn gweithio.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i ni ddeall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Rydyn yn parhau i weithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion sy'n newid. Rydyn yn defnyddio adborth i herio a llywio ein busnes, ein prosiectau a'n cynlluniau.

Fe wnaethom barhau i ddangos natur agored a thryloyw ein penderfyniadau (llywodraethu) yn y ffordd rydyn yn gweithio ac yn gwario arian cyhoeddus wrth i ni gyflwyno ein cynllun pum mlynedd.

Cawsom adroddiadau cadarnhaol gan Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol ar ein trefniadau llywodraethu, yn ogystal ag adborth cadarnhaol gan ein Gweinidog sy'n noddi a swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n gwaith i gefnogi'r sector.

Yn 2023 i 2024, fe wnaethom y canlynol:

- cyhoeddi ein hadroddiad effaith, yn dangos y cynnydd a wnaethom yn ystod blwyddyn gyntaf ein cynllun strategol 2022 i 2027 pum mlynedd
- cynnal ymgyrch recriwtio helaeth gyda thîm penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru i chwilio am aelodau newydd o'r Bwrdd. Fe wnaethom recriwtio 11 aelod newydd o'r Bwrdd – bydd chwech yn dechrau ym mis Ebrill 2024 a bydd y pump arall yn dechrau ym mis Ebrill 2025
- recriwtio prif weithredwr newydd

- rhannu sut rydyn yn gweithio gyda safonau'r Gymraeg
- cyflwyno ein *dull marchnata a chyfathrebu mewnol* a'n *strategaeth ddigidol* er mwyn cefnogi sut rydym yn gweithio ac yn cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym eisiau sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn gydnaws â'n cynulleidfaoedd sy'n tyfu a bod ein cynnwys a'n platfformau yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio ac yn diwallu anghenion ein cynulleidfaoedd
- cynnal archwiliad sgiliau gyda'n staff er mwyn cefnogi ein cynllun hyfforddi, dysgu a datblygu staff tair blynedd
- cadw ein hachrediad ISO27001 a sicrhau achrediad Cyber Essentials
- datblygu ein *Cynllun gweithredu datgarboneiddio* - ers 2019, rydym wedi lleihau ein hôl troed carbon **44 y cant**

Roedd dros **500,000** o bobl wedi ymweld â'n gwefan.

Roedd gennym dros **7,000** o ddilynwyr ar X (Twitter), dros **5,000** o ddilynwyr ar Facebook a **2,000** o ddilynwyr ar LinkedIn.

Ein staff

Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd gennym:

- **234** aelod o staff
- **44 o** weithwyr newydd
- trosiant staff o **5.5%**
- cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o **3.6%**

- cyfradd absenoldeb oherwydd salwch o **1.3%**, os nad ydym yn cynnwys salwch hirdymor
- sgôr ymgysylltu â staff o **91.2%**
- **tystysgrif archwilio lân** sydd i’w gweld yn ein cyfrifon blynyddol